Cynulliad Cenedlaethol Cymru
**Ymchwil y Senedd**

# Yr Amgylchedd
## Adroddiad Monitro Brexit

13 Mehefin – 29 Gorffennaf 2019



Y Cynulliad a BREXIT

Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru, i gytuno ar drethi yng Nghymru, ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r ddogfen hon ar wefan y Cynulliad Cenedlaethol:
**www.cynulliad.cymru**

Gellir cael rhagor o gopïau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:


**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
**Bae Caerdydd**
**CF99 1NA**

Ffôn: **0300 200 6317**
E-bost: **Katy.Orford@Cynulliad.Cymru**
Twitter: **@SeneddYmchwil**
Blog: **SeneddYmchwil.blog**
LinkedIn: **Ymchwil y Senedd, Cynulliad Cenedlaethol Cymru**



**© Hawlfraint Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2019**
Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difrïol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.


Cynulliad Cenedlaethol Cymru
**Ymchwil y Senedd**

# Yr Amgylchedd
## Adroddiad Monitro Brexit

13 Mehefin – 29 Gorffennaf 2019


**Awduron:**
Katy Orford, Elfyn Henderson, Chloe Corbyn, Emily Williams, Holly Tipper a Siân Davies.



Mae Ymchwil y Senedd yn cydnabod y gymrodoriaeth seneddol a roddwyd i Holly Tipper gan Gyngor Ymchwil yr Amgylchedd Naturiol, a alluogodd i'r papur hwn gael ei gwblhau.



**Trosolwg o'r papur:**
Bydd Brexit yn dod â newidiadau sylweddol ym maes polisi amgylcheddol. Mae Ymchwil y Senedd wedi paratoi'r adroddiad monitro hwn ar gyfer Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig y Cynulliad. Mae'n darparu diweddariad ar ddatblygiadau Brexit diweddar sy'n bwysig o ran polisi amgylcheddol yng Nghymru.


Y Cynulliad a BREXIT

# Cynnwys

**1. Cyflwyniad........................................................................................1**

**2. Y camau gweithredu gan yr UE ..................................................... 2**

**3. Y camau gweithredu gan Lywodraeth y DU............................... 3**

**4. Y camau gweithredu gan Lywodraeth Cymru........................... 6**

**5. Y camau gweithredu gan Lywodraeth yr Alban a Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon.................................................. 11**

**6. Y camau gweithredu gan y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig ...............................12**

**7. Camau gweithredu eraill gan y Cynulliad Cenedlaethol ...................................................................................15**

**8. Y camau gweithredu gan ddeddfwrfeydd eraill y DU ...........16**

**9. Ffynonellau eraill allweddol..........................................................18**

**Yr Amgylchedd:** Adroddiad Monitro Brexit

# 1. Cyflwyniad

Mae'r adroddiad hwn yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am ddatblygiadau diweddar yn ymwneud â Brexit ym maes polisi amgylcheddol. Fe'i paratowyd gan Ymchwil y Senedd ar gyfer **Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig** y Cynulliad ac mae'n cwmpasu'r cyfnod o 13 Mehefin i 29 Gorffennaf 2019. Mae'r **adroddiad blaenorol** yn cwmpasu 3 Ebrill i 12 Mehefin 2019.

Mae'r ddogfen hon yn rhoi trosolwg o ddatblygiadau yn yr UE a'r DU sy'n effeithio ar y maes polisi amgylcheddol. Mae'n canolbwyntio ar weithgareddau:

- Sefydliadau'r UE;
- Y llywodraethau a'r deddfwrfeydd yn y DU; ac
- Yn darparu ffynonellau gwybodaeth allweddol eraill.

I gael trosolwg llawn o'r trafodaethau yn ymwneud ag ymadawiad y DU â'r UE, gweler adroddiadau cyffredinol Ymchwil y Senedd, **Adroddiadau Monitro Brexit a'r Wybodaeth Ddiweddaraf**, sydd wedi'u paratoi ar gyfer **Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol** y Cynulliad. Mae gwybodaeth hefyd ar gael ar dudalennau gwe **Y Cynulliad a Brexit**.

# 2. Y camau gweithredu gan yr UE

## Amaethyddiaeth a bwyd

Ar 12 Mehefin cyhoeddodd y Comisiwn Ewropeaidd **hysbysiad ar y parodrwydd ar gyfer Brexit.**

Mae **hysbysiadau parodrwydd ar gyfer Brexit** wedi parhau i gael eu cyhoeddi gan y Comisiwn yn ystod ffenestr yr adroddiad monitro hwn. Mae hyn yn cynnwys hysbysiad ar **Gwotâu Cyfradd Tariff** (11 Gorffennaf).

Mae'r DU a'r UE wedi cynnal ymarfer ar y cyd i ddeall maint y cydweithredu trawsffiniol ar ynys Iwerddon. **Cyhoeddwyd gwybodaeth am yr ymarfer mapio hwn gan y Comisiwn** ar 21 Mehefin. Mae'r adroddiad hwn yn cynnwys crynodeb o'r trafodaethau a gafwyd a rhestr y cytunwyd arni o feysydd cydweithredu Gogledd-De fel amaethyddiaeth a'r amgylchedd.

Ar 20 Mehefin cyhoeddwyd **dogfennau cysylltiedig Llywodraeth y DU**, sy'n ymwneud â llawer o feysydd amaethyddol ac amgylcheddol.

## Pysgodfeydd

Ar 18 Gorffennaf cyhoeddodd y Comisiwn ddiweddariad o'i **ddogfen cwestiynau ac atebion** (PDF 516KB) ar Brexit a physgodfeydd.



**Yr Amgylchedd:** Adroddiad Monitro Brexit

# 3. Y camau gweithredu gan Lywodraeth y DU

Ar 24 Gorffennaf disodlodd Boris Johnson Theresa May fel y Prif Weinidog.

Ar yr un diwrnod gwnaeth newidiadau mawr i'r Cabinet, gan gynnwys penodi:

- Theresa Villiers fel Ysgrifennydd Gwladol yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig, gan gymryd lle Michael Gove; a
- Liz Truss fel Ysgrifennydd Gwladol Masnach Ryngwladol, gan gymryd lle Liam Fox.

Cadwodd Stephen Barclay ei swydd fel yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ymadael â'r Undeb Ewropeaidd.

Bu nifer o newidiadau hefyd i'r gweinidogion iau yn Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig (Defra):

- Ar 25 Gorffennaf ailbenodwyd George Eustice yn Weinidog Gwladol, gan gymryd lle Robert Goodwill. Yn flaenorol, roedd George Eustice yn y swydd hon rhwng mis Mai 2015 a mis Chwefror 2019, pan ymddiswyddodd oherwydd sut yr oedd y Prif Weinidog ar y pryd yn ymdrin â phroses Brexit.
- Ar 25 Gorffennaf penodwyd Thérèse Coffey hefyd yn Weinidog Gwladol. Cyn hynny roedd hi'n Is-ysgrifennydd Gwladol Seneddol yn Defra.
- Ar 27 Gorffennaf penodwyd Zac Goldsmith yn Is-Ysgrifennydd Gwladol Seneddol.
- On 27 Gorffennaf collodd David Rutley ei swydd fel Is-Ysgrifennydd Gwladol Seneddol. Pan gafodd ei benodi i'r swydd ym mis Medi 2018, cafodd ei **ddisgrifio yn y cyfryngau** fel y 'gweinidog cyflenwadau bwyd'.

## Amaethyddiaeth a bwyd

Ar 16 Mehefin **llofnododd Llywodraeth y DU a Llywodraeth Tsieina Brotocol Cig Eidion rhwng y DU a Tsieina,** gan baratoi'r ffordd ar gyfer allforion cig eidion y DU i Tsieina a dod â gwaharddiad 20 mlynedd ar allforion i ben yn dilyn yr argyfwng BSE. Dywedodd Llywodraeth Cymru yr amcangyfrifir bod y cyfleoedd newydd a gyflwynir gan y protocol yn **werth tua £25 miliwn y flwyddyn** i sector cig coch Cymru.

Ar 20 Mehefin cyfarfu'r **grŵp cynghori technegol ar drefniadau amgen i'r backstop** am y tro cyntaf. Dywedodd Jesse Norman, Ysgrifennydd Ariannol y Trysorlys, sy'n cyd-gadeirio'r grŵp:

> The technical group will bring together individuals from both the public and private sector, and academia, who have expertise on issues spanning law, customs, supply chains, cross-border trade and technology.
>
> They will consider processes associated with the movement of goods across borders and options for simplifying them, such as trusted trader programmes and advanced use of data and IT systems.

Yn dilyn lansiad y grŵp cynghori arbenigol ar drefniadau amgen i backstop Gogledd Iwerddon, mae Llywodraeth y DU wedi **cynnull ail grŵp** yn cynnwys busnesau ac undebau llafur i lywio'r datblygiadau backstop amgen.

Ar 27 Mehefin, penododd Michael Gove, yr Ysgrifennydd Gwladol dros yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig ar y pryd, **Henry Dimbleby** i arwain **adolygiad o system fwyd Lloegr**. Bydd canfyddiadau'r adolygiad yn bwydo i mewn i ddatblygiad **strategaeth fwyd newydd Lloegr**, a ddylai gael ei chyhoeddi yn 2020. Er y bydd y strategaeth yn canolbwyntio ar Loegr, bydd hefyd yn ystyried perthnasoedd gyda'r gweinyddiaethau datganoledig, yr UE a phartneriaid masnachu eraill.

Ar 3 Gorffennaf adroddodd y BBC fod Llywodraeth Canada yn **gwrthod ymestyn ei chytundeb fasnach bresennol gyda'r UE i'r DU pe bai Brexit heb gytundeb**. Mae'r cytundeb UE-Canada - y **Cytundeb Economaidd a Masnach Cynhwysfawr (CETA) -** wedi bod mewn grym dros dro ers mis Medi 2017. **Adroddodd y BBC hefyd** ar y goblygiad y gallai hyn ei gael i allforwyr bwyd, gan nodi codiadau posibl yn y gyfradd tariff, sef 293 y cant a 245 y cant yn y drefn honno ar gyfer hufen a chaws Cheddar.

Ar 17 Gorffennaf **diweddarodd Llywodraeth y DU ei chanllawiau** ar hysbysu'r Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid a Phlanhigion (APHA) ar fewnforio anifeiliaid, plasm cenhedlu a chynhyrchion anifeiliaid o'r UE.

## Pysgodfeydd

Ar 19 Gorffennaf lansiodd Llywodraeth y DU **alwad am dystiolaeth** er mwyn helpu i ddatblygu dull newydd ar gyfer dyrannu unrhyw gwota pysgota ychwanegol yn Lloegr, y gellir ei sicrhau yn ystod trafodaethau yn dilyn Brexit. Daw'r cyfnod ymgynghori i ben ar 30 Awst.



**Yr Amgylchedd:** Adroddiad Monitro Brexit

Ar 25 Gorffennaf ymatebodd y Prif Weinidog, Boris Johnson, yn Nhŷ'r Cyffredin i **gwestiwn ar reoli pysgodfeydd yn y dyfodol**, gan nodi:

> … we have a fantastic opportunity now to take back control of our fisheries, and that is exactly what we will do. We will become an independent coastal state again, and we will, under no circumstances, make the mistake of the Government in the 1970s, who traded our fisheries away at the last moment in the talks. That was a reprehensible thing to do. We will take back our fisheries, and we will boost that extraordinary industry.

## Gwarchod natur

Ar 23 Gorffennaf cyhoeddodd Llywodraeth y DU **ddatganiad polisi haf Bil yr Amgylchedd**. Roedd yn darparu ymrwymiadau i ddeddfu ar lywodraethu amgylcheddol, ansawdd aer, bioamrywiaeth ac effeithlonrwydd gwastraff ac adnoddau. Mae'r stori newyddion gysylltiedig i'w gweld ar **wefan Llywodraeth y DU.**

## Fframweithiau'r DU

Ar 4 Gorffennaf **adroddwyd** y bydd Llywodraeth y DU yn cyhoeddi 'adolygiad o ddatganoli'. Caiff yr adolygiad ei gadeirio gan gyn-Weinidog Swyddfa'r Alban, yr Arglwydd Dunlop a bydd yn argymell gwelliannau i gysylltiadau rhynglywodraethol, yn benodol sut y mae adrannau Llywodraeth y DU yn cydweithredu ar ddatganoli.

# 4. Y camau gweithredu gan Lywodraeth Cymru

## Amaethyddiaeth a bwyd

Ar 10 Mehefin ymddangosodd Eluned Morgan, Gweinidog y Gymraeg a Chysylltiadau Rhyngwladol, gerbron y Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol am **sesiwn graffu.** Dywedodd y Gweinidog fod Llywodraeth y DU yn datblygu concordat, mewn ymgynghoriad â'r gweinyddiaethau datganoledig, a fydd yn nodi sut y gallai gweinyddiaethau'r DU weithio gyda'i gilydd ar gytundebau masnach yn y dyfodol.

Ar 17 Mehefin gwnaeth y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog Brexit, Jeremy Miles, araith ar **Brexit a Datganoli.** Soniodd am sefydlu'r hyn sydd fwy neu lai yn Gyd-bwyllgor Gweinidogol ar gyfer masnach. Yn yr araith cyfeiriodd at y cytundeb dwyochrog ar ddosbarthu cymorth amaethyddol fel y darperir ar ei gyfer ym Mil Amaethyddiaeth y DU fel enghraifft o drafodaethau rhynglywodraethol llwyddiannus.

Ar 28 Mehefin cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ganllawiau ar **Brexit heb gytundeb a phrosiectau a ariennir gan yr UE.**

Ar 2 Gorffennaf cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ddatganiad i'r wasg gyda'r teitl **Ydy'ch busnes chi'n barod ar gyfer Brexit heb gytundeb? Os nad yw, mae'r amser yn prinhau**. Mae'n cynnwys pum cam i berchnogion busnes eu cymryd i baratoi ar gyfer Brexit heb gytundeb.

Yn dilyn yr ymgynghoriad **Brexit a'n tir,** mae Llywodraeth Cymru yn cynnig un 'Cynllun Ffermio Cynaliadwy' i gefnogi ffermwyr ar ôl Brexit.

Lansiwyd ail ymgynghoriad ar 9 Gorffennaf gyda'r teitl **Ffermio cynaliadwy a'n tir.** Mae'r ymgynghoriad yn pwysleisio pwysigrwydd cyfuno cynhyrchu bwyd a nwyddau cyhoeddus cynaliadwy mewn dull sy'n seiliedig ar ganlyniadau sy'n atgyfnerthu ei gilydd:

- Mae Pennod 3 yn egluro'r fframwaith a gynigir i danategu cymorth i ffermwyr;
- Mae Pennod 4 yn disgrifio'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy arfaethedig;
- Mae Penodau 5, 6 a 7 yn trafod meysydd cymorth ehangach er mwyn helpu'r cynllun i weithredu - cyngor, cefnogaeth ehangach i'r diwydiant a rheoleiddio;
- Mae Pennod 8 yn rhoi diweddariad ar drefniadau pontio a chyllid; ac
- Mae Pennod 9 yn egluro beth fydd yn digwydd ar ôl yr ymgynghoriad a sut y bydd Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda ffermwyr.

Disgwylir adroddiad ar ddadansoddiad o ymatebion yr ymgynghoriad yng ngwanwyn 2020. Mae'r Gweinidog yn cynnig 'cyd-ddylunio' y polisi gyda rhanddeiliaid a chynnal asesiad pellach o effaith.

Ar 16 Gorffennaf gwnaeth y Prif Weinidog, Mark Drakeford ei **ddatganiad deddfwriaethol** sy'n nodi cynlluniau Llywodraeth Cymru i'r Biliau gael eu cyflwyno dros weddill tymor y Cynulliad hwn. Cyhoeddodd na fyddai Bil Amaethyddol Cymru yn cael ei gyflwyno yn nhymor y Cynulliad fel y disgwyliwyd yn flaenorol:

> O ran Bil amaethyddiaeth i Gymru, mae'r oedi wrth ddatrys Brexit yn golygu y byddwn ni nawr yn canolbwyntio ar baratoi Bil o'r fath yn y tymor Cynulliad hwn i'w gyflwyno yn y tymor nesaf. Bydd hwn yn gyfle i fod yn uchelgeisiol ac yn eang, gan fynd ymhellach na dim ond cyfyngu deddfwriaeth i gynlluniau cymorth fferm i edrych ar faterion ehangach fel hawliau ffermwyr tenant. Lansiodd fy nghyd-Aelod, Lesley Griffiths, 'Ffermio Cynaliadwy a'n Tir' yr wythnos diwethaf. Mae'n cyflwyno cynigion uchelgeisiol ar gyfer y dyfodol, gan gynnwys talu ffermwyr am yr hyn y gallan nhw ei wneud i ymateb i'r argyfwng hinsawdd, lleihau allyriadau a dal carbon. Edrychaf ymlaen at y sgyrsiau a fydd yn cael eu cynnal ledled Cymru mewn sioeau amaethyddol ac mewn lleoliadau eraill yn ystod yr haf hwn. Gan ddefnyddio canlyniadau'r ymgynghoriad hwn, byddwn yn cyflwyno Papur Gwyn cyn diwedd tymor y Cynulliad hwn i fraenaru'r tir ar gyfer deddfwriaeth.

Ar 17 Gorffennaf mewn ymateb i gwestiwn yn y Cyfarfod Llawn ar y **mesurau y bydd Llywodraeth Cymru yn eu cyflwyno i gefnogi ffermwyr Cymru yn ystod y deuddeg mis nesaf,** dywedodd Lesley Griffiths:

> …fod angen inni ofalu am ein ffermwyr yng Nghymru. Y bygythiad mwyaf iddynt yw Brexit, a'r ansicrwydd ynghylch Brexit [...] un o'r pethau y bydd yn rhaid i ni eu gwneud, o bosibl, yw darparu pecyn achub ar gyfer y sector defaid, oherwydd fel y dywed ffermwyr wrthyf, 'Beth fydd yn digwydd ar 1 Tachwedd os byddwn yn gadael yr Undeb Ewropeaidd heb gytundeb, ac rwy'n mynd â fy ŵyn i'r farchnad ac nid oes neb yno i'w prynu?' [...] rydym wedi bod yn ei wneud yw ceisio sicrhau bod ein ffermydd mor gynhyrchiol â phosibl.

Ar 23 Gorffennaf cyhoeddodd Llywodraeth Cymru a Bwrdd Diwydiant Bwyd a Diod Cymru eu c**ynllun gweithredu drafft ar fwyd a diod ar gyfer ymgynghoriad.** Wrth **lansio'r ymgynghoriad**, dywedodd Lesley Griffiths, Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig:

> Mae ansicrwydd a heriau'n ein hwynebu yn sgil Brexit, ond mae'n sector bwyd a diod yn dechrau o le da. Bydd Brexit yn amharu'n sylweddol arnon ni – mae'n hollbwysig ein bod yn goresgyn yr heriau a fydd yn ein hwynebu, er enghraifft, sut i wella cynhyrchiant, sut i ddenu gweithlu ac i fuddsoddi ynddo, a sut i sicrhau bod ein rhwydweithiau a'n systemau'n fwy cadarn mewn byd ansicr.

Mae'r ddogfen ymgynghori yn nodi sut y mae Llywodraeth Cymru a Bwrdd Diwydiant Bwyd a Diod Cymru yn cynnig gweithio gyda'r sector i gyflawni'r tri nod allweddol o ddatblygu busnes, bod o fudd i bobl a chymdeithas a hyrwyddo Cymru fel cenedl fwyd. Mae'r cynigion yn cynnwys:

- Cefnogi twf busnesau drwy fuddsoddiad, cefnogaeth, arloesedd a chydweithrediad;
- Darparu gyrfaoedd deniadol a datblygu sgiliau'r gweithlu;
- Creu partneriaeth gyda'r sector bwyd a diod; ac
- Arddangos y sector drwy **Blas ar Gymru.**

Cynhelir yr ymgynghoriad hyd at 15 Hydref.

Ar 25 Gorffennaf **ymatebodd Llywodraeth Cymru** i adroddiadau'r Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig ar **Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Bil Amaethyddiaeth y DU** a'r **Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol atodol.** Ymrwymodd Lesley Griffiths i ddatblygu cymal "machlud" fel bod darpariaethau perthnasol ym Mil Amaethyddiaeth y DU yn dod i ben ar 31 Rhagfyr 2024. Mae hyn er mwyn rhoi sicrwydd bod y darpariaethau hyn yn darparu mecanwaith deddfwriaethol trosiannol ar gyfer cymorth i ffermwyr cyn i Fil Amaethyddiaeth Cymru gael ei gyflwyno yn y Cynulliad nesaf.

## Ansawdd aer

Ar 18 Mehefin gwnaeth Lesley Griffiths **ddatganiad llafar yn y Cyfarfod Llawn ar Aer Glân.** Dywedodd:

> Mae'r cyfyngiadau cyfreithiol presennol ar lygredd aer yn deillio o gyfraith yr Undeb Ewropeaidd, ac yn pennu safon dderbyniol ofynnol. Mae'r angen am reolau ar lefel yr UE yn adlewyrchu'r ffaith nad yw llygredd aer yn parchu ffiniau cenedlaethol ac yn gofyn am ymateb ar y cyd ar lefel leol, genedlaethol a rhyngwladol. Beth bynnag fydd canlyniad y broses Brexit, rydym ni wedi ymrwymo i sicrhau bod ein dulliau ni o ddiogelu'r amgylchedd yn gyson â'r rhai ar lefel yr UE, ac nid ydym ni am ostwng y safonau o gwbl.





## Ynni a newid hinsawdd

Ar 18 Gorffennaf cyhoeddodd Lesley Griffiths **ddatganiad ysgrifenedig ar y Cyfarfod Pedrochrog Ynni a Newid Hinsawdd** a ddigwyddodd ar 28 Mehefin. Adroddodd fod trafodaethau'n canolbwyntio ar baratoadau dim cytundeb, gan gynnwys y berthynas fasnachu gyda'r UE yn y dyfodol a sut y byddant yn gweithio'n agosach i gyflawni uchelgeisiau carbon isel.

Dywedodd y Gweinidog fod y cyfarfod yn cytuno y byddai Llywodraeth y DU yn rhoi sicrwydd pellach ynghylch diogelwch ynni o ganlyniad i ymadael â'r UE ym mis Hydref. Byddai swyddogion yn datblygu rhaglen waith i baratoi ar y cyd ar gyfer trafodaethau Partneriaeth Economaidd y Dyfodol gyda'r UE a byddai amserlen o gyfarfodydd Gweinidogol yn cael eu cynllunio ar faterion o ddiddordeb cyffredin.

## Trefniadau llywodraethu amgylcheddol

Ar 16 Gorffennaf dywedodd Mark Drakeford yn y **datganiad deddfwriaethol** fod Llywodraeth Cymru yn parhau i fod yn ymrwymedig i ddeddfu ar lywodraethu ac egwyddorion amgylcheddol, ond nid ymrwymwyd i Fil ar gyfer tymor y Cynulliad hwn:

> Rydym ni wedi ymgynghori ar egwyddorion amgylcheddol a llywodraethu yng nghyd-destun Brexit. Rydym ni'n parhau'n ymrwymedig i ddeddfu er mwyn mynd i'r afael â'r diffygion a fydd yn dod i'r amlwg o ran egwyddorion a llywodraethu pe bai'r DU yn gadael yr Undeb Ewropeaidd. Fodd bynnag, mae hwn yn parhau i fod yn fater cymhleth ac rydym ni wrthi'n trafod â gweinyddiaethau eraill ledled y Deyrnas Unedig ynghylch sut y gallwn ni weithio ar y cyd i sicrhau dull gweithredu cydlynol a byddwn yn parhau i adrodd i'r Cynulliad Cenedlaethol wrth i'r darlun sy'n datblygu ddod yn gliriach.

Ar 17 Gorffennaf cyhoeddodd Lesley Griffiths ddatganiad ysgrifenedig ar **Ymgynghoriad ar Egwyddorion Amgylcheddol a Llywodraethu ar ôl ymadael â'r Undeb Ewropeaidd.** Dywedodd:

> Byddaf yn cyhoeddi crynodeb o'r ymatebion i'r ymgynghoriad ym mis Awst. Mae mynd i'r afael â bylchau ym maes llywodraethu yn fater cymhleth, sy'n galw am ystyriaeth ofalus, ar y cyd. Gan adeiladu ar ein dull cydweithredol o ymgynghori, rwyf wedi sefydlu tasglu o brif randdeiliaid i gydweithio â ni i ddatblygu ymhellach fanylion strwythur llywodraethu amgylcheddol i Gymru. Dechreuodd y grŵp hwn ar ei waith yr wythnos hon a bydd yn adrodd yn ôl yn rheolaidd i'm Grŵp Bord Gron ar Brexit.

## Pysgodfeydd

Mae Llywodraeth Cymru wedi bod yn cynnal cyfarfodydd cyhoeddus fel rhan o'i hymgynghoriad ar **bolisiau morol a physgodfeydd ar gyfer Cymru ar ôl Brexit.** Daw'r cyfnod ymgynghori i ben ar 21 Awst.

## Fframweithiau'r DU

Ar 4 Gorffennaf cyhoeddodd Jeremy Miles ddatganiad gyda'r teitl **Cyd-bwyllgor y Gweinidogion (Negodiadau'r Undeb Ewropeaidd), Manceinion, 28 Mehefin 2019.** Canolbwyntiodd y cyfarfod ar fframweithiau cyffredin y DU, ymhlith pethau eraill.

Yn y datganiad, myfyriodd y Gweinidog ar 'y cynnydd da sydd wedi'i wneud o ran y Fframweithiau Cyffredin'. Cyhoeddwyd rhagor o wybodaeth mewn **Diweddariad ar y cynnydd yn y Fframweithiau Cyffredin**. Mae'n nodi proses pum cam i sefydlu fframweithiau cyffredin:

- **Cam un**: Ymgysylltiad amlochrog (gyda Llywodraeth y DU a'r gweinyddiaethau datganoledig) ar fframweithiau cyffredin;
- **Cam dau:** Datblygu polisi manwl sy'n arwain at fframwaith amlinellol;
- **Cam tri**: Adolygu, ymgynghori a datblygu polisi ymhellach, gan arwain at gadarnhad fframwaith dros dro;
- **Cam pedwar:** Gweithredu fframweithiau a chytuno ar fframweithiau; a
- **Cham 5:** Trefniadau ôl-weithredu

Mae'r datganiadau hefyd yn darparu manylion am y drafodaeth ymgysylltiad technegol amlochrog gyntaf (Llywodraeth y DU a gweinyddiaethau datganoledig) gyda rhanddeiliaid i brofi'r broses y tu ôl i ddatblygu fframweithiau. Edrychodd y cynllun peilot hwn ar y fframwaith Sylweddau Peryglus (Cynllunio).

Ar 17 Gorffennaf cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ddatganiad ysgrifenedig ar **Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) a Fframweithiau Cyffredin**. Mae Deddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) yn ei gwneud yn ofynnol i Lywodraeth y DU adrodd i'r Senedd yn rheolaidd ar faterion sy'n ymwneud â fframweithiau cyffredin a'r defnydd, os o gwbl, a wneir gan Lywodraeth y DU o bwerau o dan adran 12 o'r Ddeddf i gynnal terfynau presennol cyfraith yr UE dros dro ar gymhwysedd datganoledig (yr hyn a elwir yn 'bwerau rhewi').

Mae'r datganiad ysgrifenedig yn hysbysu'r Aelodau bod y **pedwerydd adroddiad o'r fath** wedi'i osod yn y Senedd ar 17 Gorffennaf. Mae'n nodi na wnaed unrhyw reoliadau o dan adran 12(9) o Ddeddf yr UE (Ymadael) i ddiddymu'r pwerau i gymhwyso cyfyngiadau cyfraith yr UE a ddargedwir yn ystod y cyfnod adrodd.





# 5. Y camau gweithredu gan Lywodraeth yr Alban a Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon

## Amaethyddiaeth a bwyd

Ar 20 Mehefin ffurfiwyd **Gweithgor Ffermio a Chynhyrchu Bwyd** newydd yn cynnwys cynhyrchwyr, defnyddwyr a sefydliadau amgylcheddol. Un o rolau'r grŵp fydd ystyried sut y mae asedau naturiol yr Alban yn cael eu defnyddio, a sut i gefnogi hyn ar ôl Brexit.

Ar 21 Mehefin yn dilyn y cyhoeddiad hwn, gwnaeth **Nicola Sturgeon, Prif Weinidog yr Alban, araith** yn y Royal Highland Show. Siaradodd y Prif Weinidog am yr ansicrwydd ynghylch Brexit, a nododd:

> The Scottish Government has made it clear that – if the UK does decide to leave the EU – we will implement a 5 year period for the transition from CAP [Common Agricultural Policy]. In doing so, we are seeking to ensure that – under the worst case scenario – your sector will have a degree of certainty about the future, until 2024.

Ar 21 Mehefin cyhoeddodd Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon ymatebion rhanddeiliaid o'r **Ymgynghoriad ar Fframwaith Polisi Amaethyddol y Dyfodol.** Daeth yr ymgynghoriad i ben ym mis Hydref 2018 a cheisiodd farn rhanddeiliaid ar y cynlluniau newydd i ddisodli'r Polisi Amaethyddol Cyffredin.

Ar 28 Mehefin cyhoeddodd Prif Weinidogion Cymru a'r Alban **ddatganiad ar y cyd** cyn y Cyngor Prydeinig-Gwyddelig terfynol, gan ofyn i Brif Weinidog y DU yn y dyfodol ddiystyru Brexit 'dim cytundeb'. Dywedodd y Prif Weinidogion fod yr honiadau y gellir ymadael heb gytundeb a dal i elwa o fasnach heb dariffau gyda'r UE wedi'u gwrthbrofi.

## Fframweithiau'r DU

Ar 3 Gorffennaf **ysgrifennodd Llywodraeth Cymru a Llywodraeth yr Alban at David Lidington, Gweinidog Cabinet y DU** ynghylch yr Adolygiad Cysylltiadau Rhynglywodraethol, a gomisiynwyd gan y Cydbwyllgor Gweinidogion (JMC). Roedd y llythyr yn galw am angen brys i ddiwygio'r berthynas rhwng ein llywodraethau yn sylfaenol.

# 6. Y camau gweithredu gan y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig

## Amaethyddiaeth a bwyd

Ar 18 Mehefin cyhoeddodd y Pwyllgor yr adroddiad diweddaraf fel rhan o'i waith hirfaith ar yr **ymchwiliad i ailfeddwl am fwyd yng Nghymru**. Mae'r **adroddiad yn canolbwyntio ar frandio a phrosesu bwyd** (PDF 2MB).

Cynhaliodd y Pwyllgor sesiynau tystiolaeth lafar ar **6 Mawrth** a **20 Mawrth** gydag arbenigwyr yn y sector bwyd, ac ymwelodd â busnesau bwyd ar Afon Menai ar 28 Mawrth.

Mae'r adroddiad yn dod i 25 o gasgliadau, gan gynnwys:

- Mae'n hanfodol y dylai fod gan Lywodraeth Cymru weledigaeth glir, strategol ar gyfer sector bwyd Cymru ar ôl Brexit yn seiliedig ar gynnal, os nad gwella, safonau amgylcheddol, hylendid bwyd a lles anifeiliaid uchel;
- Dylai'r weledigaeth hon gael ei hadlewyrchu yn sefyllfa negodi'r DU ar gyfer cytundebau masnach yn y dyfodol a dylai Llywodraeth Cymru gael llais cyfartal wrth y bwrdd trafod;
- Rhaid i Lywodraeth Cymru ddatblygu hunaniaeth brand Cymreig gliriach ar gyfer cynhyrchion bwyd o Gymru, gan gynnwys ar gyfer bwyd môr. Rhaid i'r hunaniaeth brand hon fod yn rhan ganolog o ddull Llywodraeth Cymru o hyrwyddo Cymru fel cenedl fwyd;
- Gall hunaniaeth brand y DU fod yn fodd o gael mynediad at farchnadoedd byd-eang. Gellid ei defnyddio lle bo'n briodol a lle mae manteision clir i gynhyrchwyr o Gymru;
- Mae pryder ynghylch statws cynhyrchion Cymreig yn y dyfodol sydd â statws Dynodiadau Daearyddol yr UE a pha mor ddeniadol fydd cynlluniau Dynodiadau Daearyddol y DU ar ôl Brexit i gynhyrchwyr a defnyddwyr. Dylai Llywodraeth Cymru weithio gyda Llywodraeth y DU i ddylunio, gweinyddu a hyrwyddo cynlluniau newydd y DU. Mae hyn yn cynnwys dylunio'r logo newydd; a
- Dylai Llywodraeth Cymru nodi ei safbwynt ar system fewnfudo arfaethedig Llywodraeth y DU ar ôl Brexit ac egluro'r effaith y mae'n disgwyl i'r cynigion hyn ei chael ar y sector bwyd a diod.



**Yr Amgylchedd:** Adroddiad Monitro Brexit

Ar 22 Gorffennaf **ymatebodd Llywodraeth Cymru** (PDF 385KB) i adroddiad y Pwyllgor. Mae'r ymateb yn nodi, ymhlith pethau eraill:

- Bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i weithredu'n gadarn ynglŷn â'r weledigaeth strategol i gynnal safonau cynhyrchu bwyd uchel Cymru yn ei thrafodaethau parhaus â Llywodraeth y DU;
- Mae datblygu hunaniaeth brand Cymreig yn bwysig a bydd cefnogaeth yn y dyfodol yn cael ei thanategu gan 'Werthoedd Brand Cynaliadwy' penodol. Mae rhaglen Gwerthoedd Brand Cynaliadwy yn cael ei datblygu i ddarparu system olrhain a tharddiad cynnyrch;
- Mae manteision sylweddol i gynhyrchwyr o Gymru drwy hyrwyddo'r brand Cymreig ochr yn ochr â hunaniaeth y DU mewn rhai marchnadoedd;
- Bydd Llywodraeth Cymru yn cefnogi cynhyrchwyr i drosglwyddo i gynlluniau Dynodiadau Daearyddol newydd y DU. Mae Llywodraeth Cymru yn ymwneud â gweithgorau sy'n bwydo i mewn i ddatblygu cynlluniau newydd y DU, gan gynnwys datblygu'r logo;
- Bydd hyrwyddo Cynlluniau Dynodiadau Daearyddol y DU yn cael ei ystyried gan weithgor Llywodraeth y DU sydd eto i'w sefydlu. Ar hyn o bryd mae gan Lywodraeth Cymru raglen gymorth ar gyfer cynhyrchwyr cynhyrchion Dynodiadau Daearyddol yr UE, ac mae mewn trafodaethau gyda'r gweinyddiaethau datganoledig eraill ynghylch sut i hyrwyddo cynlluniau Dynodiadau Daearyddol newydd y DU;
- Mae'r Swyddfa Gartref wedi cadarnhau bod milfeddygon wedi'u hychwanegu at y Rhestr o Alwedigaethau â Phrinder; ac
- Mae Llywodraeth Cymru yn parhau i herio'r Swyddfa Gartref ar y trothwy cyflog o £30,000 ar gyfer fisa Haen 2. Byddai'n well gan Lywodraeth Cymru drothwy o £20,000 i leihau'r effaith ar economi Cymru gan fod llawer o'r gweithwyr llai medrus yn y sector bwyd a diod yn ennill yn agos at y lefel hon.

## Trefniadau llywodraethu amgylcheddol

Dros dymor yr haf cynhaliodd y Pwyllgor **ymchwiliad i drefniadau llywodraethu ac egwyddorion amgylcheddol** ar ôl Brexit. Bwriad yr ymchwiliad hwn oedd adeiladu ar **waith blaenorol y Pwyllgor ar drefniadau llywodraethu ac egwyddorion amgylcheddol** (adroddiad Mehefin 2018). Yn dilyn ymchwiliad 2018, mae Llywodraeth Cymru wedi **cyhoeddi ymgynghoriad ar ei gynigion** ac mae Llywodraeth y DU wedi cyhoeddi **Bil yr Amgylchedd (Egwyddorion a Llywodraethu) drafft.** Cafodd y Pwyllgor dystiolaeth gan academyddion, cyrff anllywodraethol amgylcheddol, Cyfoeth Naturiol Cymru ac undebau ffermio.

Yn ystod yr ymchwiliad, trafododd y Pwyllgor y bylchau llywodraethu amgylcheddol a fydd yn codi ar ôl Brexit a'r cynigion yn ymgynghoriad Llywodraeth Cymru. Ystyriodd hefyd y cynigion sy'n dod i'r amlwg mewn mannau eraill ledled y DU a'r sefyllfa bresennol o ran dull gweithredu ar y cyd yn y DU.

Mae'r Pwyllgor **wedi ysgrifennu at Lywodraeth Cymru** (19 Gorffennaf) ar faterion uniongyrchol ac mae adroddiad ehangach yn cael ei baratoi.





# 7. Camau gweithredu eraill gan y Cynulliad Cenedlaethol

## Amaethyddiaeth a bwyd

Ar 7 Mehefin cyhoeddodd y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol ei **adroddiad ar Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol Llywodraeth Cymru (Rhif 2) ar Fil Amaethyddiaeth y DU.**

## Pysgodfeydd

Ar 16 Gorffennaf, mewn **ymateb i gwestiwn** yn y Cyfarfod Llawn ynghylch pam na chafodd Bil Pysgodfeydd Cymru ei gynnwys yn y datganiad deddfwriaethol, dywedodd Mark Drakeford:

> ...O ran pysgodfeydd yn arbennig, mae'n bwysig aros hyd nes y caiff deddfwriaeth y DU ei rhoi ar waith, oherwydd bydd yn ymestyn pwerau'r Cynulliad hwn yn sylweddol iawn o ran pysgodfeydd, a byddwn eisiau cyflwyno Bil pysgodfeydd a fydd yn caniatáu i'r Cynulliad ystyried a deddfu mewn ystod o bwerau newydd a fydd gennym ni. Ond dyna'n union yw ein bwriad.

## Fframweithiau'r DU

Ar 17 Mehefin cynhaliodd y **Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol sesiwn dystiolaeth ar Fframweithiau Polisi Cyffredin y DU,** lle trafodwyd Biliau Amaethyddiaeth, Pysgodfeydd ac Amgylchedd y DU.

# 8. Y camau gweithredu gan ddeddfwrfeydd eraill y DU

## Amaethyddiaeth a bwyd

Ar 20 Mehefin gofynnwyd cwestiwn yn y Siambr Cyffredin ar **Ymadael â'r UE: Prinder Bwyd** os bydd Brexit heb gytundeb. Cadarnhaodd Is-Ysgrifennydd Gwladol Seneddol yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig, David Rutley, ei fod yn cyfarfod yn wythnosol â rhanddeiliaid i baratoi ar gyfer sefyllfa heb gytundeb:

> The UK has a high level of food security, built on diverse sources, and this will continue to be the case when we leave the EU.

Ar 26 Mehefin gofynnwyd cwestiynau yn Nhŷ'r Cyffredin ar **Economi Cymru a'r Cytundeb Ymadael â'r UE**. Mewn ymateb i gwestiwn ar ffermio defaid dywedodd Ysgrifennydd Gwladol Cymru, Alun Cairns:

> My right hon. Friend makes an extremely important point and highlights the importance of the agriculture sector, specifically sheep farming, to the Welsh economy. Clearly, it is our will to protect that sector in every possible way that we can, but the best way to protect it is to get a deal with the European Union. I have voted on three separate occasions for the deal. I think that Opposition Members need to explain why they have voted against a deal, because, by definition, that creates a higher chance of our leaving the European Union without a deal. They would need to explain that to their constituents.

Ar 27 Mehefin cyhoeddodd Pwyllgor Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig Tŷ'r Cyffredin ei adroddiad **Brand Britain: promoting British food and drink**. Wrth wneud hynny dywedodd fod yn rhaid i Lywodraeth y DU fod yn fwy uchelgeisiol wrth adeiladu brand byd-eang Prydain ar gyfer bwyd a diod.

Ar 17 Gorffennaf, cafodd Pwyllgor yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig **dystiolaeth gan uwch-swyddogion Defra,** ynglŷn â datblygu rhaglen ffermio newydd Lloegr ar ôl Brexit.

## Ynni a newid hinsawdd

Ar 10 Gorffennaf bu Tŷ'r Cyffredin yn trafod **newid hinsawdd, yr amgylchedd a datblygiad byd-eang.**





## Pysgodfeydd

Ar 19 Mehefin **ysgrifennodd Pwyllgor yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig at Michael Gove**, ar baratoad Defra ar gyfer trafod cytundeb pysgodfeydd rhwng y DU a'r UE yn dilyn Brexit. Cafodd y Pwyllgor **ymateb** ar 23 Gorffennaf. Mae'n yn tynnu sylw at waith sy'n cael ei wneud yn Defra i baratoi ar gyfer trafodaethau pysgodfeydd 2020 yr UE, yn ogystal â datblygu cytundeb fframwaith pysgodfeydd newydd i osod y broses ar gyfer trafodaethau blynyddol gyda'r UE o 2021. Mae'r ymateb hefyd yn cyfeirio at Fil Pysgodfeydd y DU. Ysgrifennodd Michael Gove:

> The next stage of the Fisheries Bill will be announced through normal parliamentary procedures. However I would like to reassure you that if the Bill has not passed by exit day, we have the necessary powers under the European Union (Withdrawal) Act 2018 and other legislation to ensure that we have a fully functioning statute book to manage our fisheries.

Ar 16 Gorffennaf, Is-bwyllgor Ynni a'r Amgylchedd Tŷ'r Arglwyddi, **Adroddiad ar rwymedigaeth glanio pysgodfeydd yr UE: chwe mis yn ddiweddarach.**

## Gwarchod natur

Ar 9 Gorffennaf **cafodd Pwyllgor Archwilio'r Amgylchedd Tŷ'r Cyffredin dystiolaeth lafar ar rywogaethau goresgynnol**. Ymhlith pethau eraill, roedd y sesiwn dystiolaeth yn ymdrin â goblygiadau sy'n deillio o Brexit.

## Offerynnau Statudol

Mae Pwyllgor Offerynnau Statudol Ewropeaidd Tŷ'r Cyffredin yn didoli rhai offerynnau statudol a gynigir o dan Ddeddf (Ymadael) yr UE 2018. Mae'r offerynnau statudol perthnasol arfaethedig ar gael ar **wefan y Pwyllgor.**

Cyflawnir y rôl hon yn Nhŷ'r Arglwyddi gan y **Pwyllgor Craffu ar Is-ddeddfwriaeth.**

# 9. Ffynonellau eraill allweddol

## Amaethyddiaeth a bwyd

Bwrdd Datblygu Amaethyddiaeth a Garddwriaeth, Quality Meat Scotland (QMS) a Hybu Cig Cymru, **Red Meat Route to Market Project Report**, Gorffennaf 2019

Undeb Amaethwyr Cymru, **FUW discusses major farming concerns with Secretaries of State**, Gorffennaf 2019

Y Sefydliad Materion Cymreig, **Setting the Bar for a Green Brexit in Food and Farming,** Mehefin 2019

NFU Cymru, **Brexit Toolbox - Preparing for Brexit V5**, Gorffennaf 2019

NFU Cymru, **NFU Cymru President to outline 'No deal' fears in letter to new PM,** Gorffennaf 2019

Canolfan Wybodaeth Senedd yr Alban (SPICe), **A review of convergence funding for agriculture in Scotland**, Mehefin 2019

Y Ffederasiwn Bwyd a Diod, **A Recipe for Growth, Prosperity and Sustainability: UK Food and Drink Industry's Plan for Success,** Mehefin 2019

## Lles anifeiliaid

Llyfrgell Tŷ'r Cyffredin, **Animal sentience and Brexit,** Gorffennaf 2019

Llyfrgell Tŷ'r Cyffredin, **Live Animal Exports,** Mehefin 2019

## Ynni a newid hinsawdd

Llyfrgell Tŷ'r Cyffredin, **General debate on tackling climate change, protecting the environment and securing global development**, Gorffennaf 2019

Papur Green Alliance UK**, Power to the people: shaping UK climate policy through deliberative democracy,** Mehefin 2019

Llyfrgell Tŷ'r Cyffredin, **UK Carbon Budgets**, 9 Gorffennaf 2019

Y Sefydliad Materion Cymreig, **The beginnings of a low carbon stimulus?,** Gorffennaf 2019



**Yr Amgylchedd:** Adroddiad Monitro Brexit

Sefydliad Ewropeaidd Coleg Prifysgol Llundain, **Climate Change and the Irony of Brexit,** Mehefin 2019

## Pysgodfeydd

Ffederasiwn Cenedlaethol Sefydliadau Pysgotwyr, **Brussels Takes Stock of Landing Obligation,** Mehefin 2019

Ffederasiwn Cenedlaethol Sefydliadau Pysgotwyr, **Landing Obligation Forum,** Mehefin 2019

SPICe, **Seafood processing in Scotland: an industry profile,** Gorffennaf 2019

Llywodraeth Cymru, **Bwletin Pysgodfeydd a Brexit,** parhaus

Llywodraeth Cymru, **Paratoi Cymru: gwefan pysgodfeydd a masnach,** parhaus

## Morol

Y Gymdeithas Cadwraeth Forol, **Gove urged to rethink 'unlawful' move on wildlife protections,** Mehefin 2019

Y Gymdeithas Cadwraeth Forol, **MCS and ClientEarth legal challenge to Brexit powers over wildlife risk,** Mehefin 2019

## Trefniadau llywodraethu amgylcheddol

Greener UK, **Reaction to the environment bill policy statement,** Gorffennaf 2019

## Eraill

Rhwydwaith Academaidd Brexit a'r Amgylchedd, **Envisioning Green Britain: Early Career Researchers reimagine UK environmental policy,** Gorffennaf 2019

CHEMtrust, **Brexit: UK Government commits to not 'undermine' public participation and stakeholder involvement in chemical laws**, Gorffennaf 2019

Greener UK, Mehefin-Gorffennaf 2019

- **Renegotiating the Brexit deal as if there were an environmental crisis**
- **A transformative Environment Bill edges closer**
- **Brexit risk tracker 8**

- **UK progress on environment and climate significantly undermined by threat of no-deal Brexit**
- **The environmental implications of different EU-UK relationship options**

The UK in a Changing Union, **Hunt vs Johnson: who is offering the greenest Brexit?,** Gorffennaf 2019

Llyfrgell Tŷ'r Cyffredin, **The UK's EU Withdrawal Agreement,** Gorffennaf 2019